# Hoffem gael syniadau plant a phobl ifanc i helpu i geisio gwneud cyfraith newydd.

Mae Sam Rowlands yn Aelod o'r Senedd. Mae am i'r Senedd wneud cyfraith newydd ynglŷn ag addysg awyr agored. Hoffai gael gwybod beth rydych chi'n ei feddwl am ei syniadau ar gyfer y gyfraith newydd.


**Darllenwch y cartŵn i ddysgu mwy am syniadau Sam ar gyfer y gyfraith.**

**Yna, siaradwch â rhywun rydych chi'n ymddiried ynddynt i'ch helpu i benderfynu a ydych chi, eich ysgol neu eich grŵp ieuenctid eisiau cymryd rhan. Os ydych o dan 13 oed mae angen i chi gael caniatâd gan eich rhieni neu ofalwyr i gymryd rhan.**

## Sut y gallaf gymryd rhan?

**Gallwch ddweud wrth Sam beth yw eich syniadau drwy:**

- Ateb yr holiadur ar y dudalen nesaf a'i anfon nôl atom (mae hwn ar gael ar-lein hefyd os yw'n well gennych).
- Chwarae'r gêm rhaffau ac ysgolion (gallwch wneud fersiwn fawr o'r gêm hon a'i chwarae y tu allan)
- Gwneud llun am sut mae plant yn teimlo pan maen nhw'n gwneud addysg awyr agored




**Anfonwch eich atebion a'ch syniadau at** BiliauAelodau@senedd.cymru neu gallwch eu hanfon at:

Gareth Rogers
Clerc Cymorth Craffu
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd

**Peidiwch â rhoi unrhyw wybodaeth y gellir ei defnyddio i'ch adnabod chi nac unrhyw un arall.** Gallwch hefyd ofyn i rywun arall anfon eich syniadau os byddai'n well gennych. Byddai'n ddefnyddiol i ni pe gallech ddweud wrthym ble yng Nghymru rydych yn byw neu enw eich grŵp ieuenctid neu eich ysgol.

## Beth fydd yn digwydd i fy syniadau?

Bydd y syniadau y byddwch yn eu hanfon atom yn cael eu defnyddio gan Sam Rowlands a phobl eraill sy'n gweithio yn y Senedd i helpu i ysgrifennu'r gyfraith newydd. Bydd yn helpu pobl i ddeall beth allai'r gyfraith newydd ei wneud (gan gynnwys sut y gallai helpu plant a phobl ifanc). Os hoffech gael rhagor o fanylion gallwch ddarllen yr wybodaeth hon am sut y byddwn yn sicrhau bod y pethau rydych chi'n eu dweud wrthym yn cael eu diogelu a'u cadw'n breifat.

**Darllenwch y cartŵn. Yna atebwch y cwestiynau hyn i rannu eich syniadau am gyfraith newydd Addysg Awyr Agored**

1. Beth yw'r prif bethau da i blant am gael mynd ar ymweliad addysg awyr agored dros nos?

2. Beth sy'n rhwystro plant rhag cymryd rhan mewn ymweliad addysg awyr agored dros nos?

TICIWCH GYMAINT AG YR YDYCH EISIAU

- ☐ Cost
- ☐ Iechyd neu anabledd
- ☐ Rhieni'n poeni
- ☐ Plant yn teimlo'n bryderus
- ☐ Bod yn ofalwyr ifanc
- ☐ Rhwystrau iaith
- ☐ Ffrindiau ddim yn mynd
- ☐ Rheswm arall (dwedwch beth) ……………………………………………………………………………..

3. Sut gall pobl sicrhau bod plant yn cael yr amser gorau posibl ar ymweliadau addysg awyr agored dros nos?

4. Ar raddfa o 1 i 10, pa mor bwysig yw hi i bob plentyn gael cyfle i wneud ymweliad addysg awyr agored dros nos am ddim rywbryd? **1 - 2 - 3 - 4 - 5 - 6 - 7 - 8 - 9 - 10**

5. Beth yw'r oedran neu'r flwyddyn orau i fynd? .............................

6. Am ba hyd ddylai'r daith fod? ......................................

7. Pa grwpiau o blant fyddai'n elwa fwyaf o gymryd rhan mewn ymweliad addysg awyr agored dros nos, a pham?

**8.** A ddylai fod yn gyfraith y gall plant fynd ar o leiaf un ymweliad addysg awyr agored dros nos? **Dylai** ☐ **Efallai** ☐ **Na** ☐

**9. Dywedwch wrthym am unrhyw syniadau eraill ddylai fod yn y gyfraith newydd**

Rhowch eich atebion o'r gêm yma, os ydych chi eisiau.

**Anfonwch eich atebion a'ch syniadau at**
BiliauAelodau@senedd.cymru

## Gêm Cyfraith Newydd Addysg Awyr Agored

Darllenwch y cartŵn. Chwaraewch y gêm hon yn eich grŵp ieuenctid neu ysgol i helpu i ddweud wrth y Senedd eich syniadau am gyfraith addysg awyr agored.

**I chwarae:**


Ysgwydwch ddîs a symud o amgylch y bwrdd, llithrwch i lawr rhaffau a dringwch ysgolion nes bydd rhywun yn ennill. Wrth symud o amgylch y bwrdd, mae cwestiwynau chi eu hateb hefyd.

Ysgrifennwch yr atebion ar ddalenni ‘post it’ a’u rhoi ar y wal neu yn eich holiadur – yna’u hanfon i BiliauAelodau@senedd.cymru



Wrth **ddringo ysgol atebwch y cwestiwn**:

Beth sy'n dda am blant yn mynd ar ymweliad addysg dros nos?



Wrth **lithro i lawr rhaff atebwch y cwestiwn**:

Beth allai wneud i bethau fynd yn dda iawn pan fydd plant yn mynd ar ymweliad addysg awyr agored dros nos?

Ar ôl y gêm, efallai y gallwch chi ysgrifennu mwy o syniadau neu ateb yr holiadur os ydych eisiau.

**Dechrau**

